# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL - 2011-12

## CEFNDIR

Yn dilyn Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn 2009, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cymryd mesurau i ymyrryd ym materion Cyngor Sir Ynys Môn o dan adran 15 Deddf Llywodraeth Leol 1999. Ers Mawrth 2011, mae Comisiynwyr sydd wedi'u penodi gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi bod yn cyflawni swyddogaeth weithredol y Cyngor, a Phrif Weithredwr wedi cael ei benodi gan y Comisiynwyr. Mae'r Cyngor yn parhau i fod ag Arweinydd ac mae wedi penodi Pwyllgor Gweithredol, er nad oes gan hwnnw bwerau i wneud penderfyniadau.

Mae'r Comisiynwyr wedi datblygu Cynllun Gwella'r Comisiynwyr, sy'n ymgorffori deg Thema Gwella Llywodraethu Corfforaethol, wedi'u trefnu i ymdrin gyda'r gwendidau llywodraethu sy'n aros i gael eu hateb yn y Cyngor. Mae perfformiad yn erbyn y themâu hyn yn cael ei fonitro a'i adrodd fesul chwarter. Mae'r Cyngor wedi defnyddio sut mae pethau'n dod ymlaen yn erbyn y deg thema gwella hyn fel un o nifer o ddangosyddion wrth adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu corfforaethol yn 2011-12.

Mae'r Cyngor wedi symud ymlaen yn sylweddol yn erbyn y deg thema gwella, gymaint felly nes bod adroddiad Chwarter 4 y Comisiynwyr i'r Gweinidog yn dweud bod yr amgylchiadau wedi cael eu creu nawr fyddai'n galluogi i'r Gweinidog ystyried dychwelyd i reolaeth ddemocrataidd, gyda threfniadau diogelu, ac y byddai'r Comisiynwyr yn argymell hynny.

## RHAN 1: CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol gyda'r gyfraith a safonau iawn, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a chadw cyfrif iawn ar ei gyfer, yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Hefyd mae dyletswydd ar y Cyngor o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau bod gwella parhaus yn digwydd yn y ffordd mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth weithredu'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau iawn ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithredu ei swyddogaethau yn effeithiol, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Nid yw'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod lleol llywodraethu corfforaethol sy'n anghyson gydag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government'.

Mae gan y Cyngor Gyfansoddiad, polisïau a phrosesau yn eu lle sy'n gyson gydag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government'. Mae'r Cyfansoddiad a'r polisïau perthnasol wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mae'r datganiad hwn yn ateb gofynion rheoliad 4(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

Y Dirprwy Brif Weithredwr (Dros Dro) yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ac mae'n cymryd cyfrifoldeb am weinyddiaeth iawn o faterion ariannol y Cyngor o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn unol gyda Datganiad CIPFA ar rôl y Prif Swyddog Ariannol.

## RHAN 2: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, a'r diwylliant a gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau, a thrwy rheiny mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu gyda'r gymuned ac yn ei harwain. Dylai alluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno, ac wedi'i dylunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Does dim modd iddi gael gwared â phob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd mae'n gallu ei ddarparu. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses sy'n parhau i fynd ymlaen, wedi'i dylunio i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, arfarnu pa mor debygol yw i'r risgiau hynny ddigwydd a'r effaith os byddant yn digwydd, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Y fframwaith llywodraethu sy'n cael ei ddisgrifio isod sydd wedi bod yn ei le yn y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012, ac mae'n parhau'n gymwys hyd at ddyddiad cymeradwy'r Datganiad o'r Cyfrifon.

Yn rhan 3 isod, mae pob un o'r chwe egwyddor Llywodraethu Corfforaethol ('Principles of Good Governance' fel sy'n cael eu cynnig gan CIPFA/SOLACE yn eu dogfen o dan yr enw 'Delivering Good Governance in Local Government 2007') yn cael ei ddisgrifio fel ag yr oedd yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12.

Mae'r Comisiynwyr sydd wedi'u penodi wedi gosod allan eu deg Thema Gwella Llywodraethu Corfforaethol. Bydd y Comisiynwyr yn monitro ac adrodd ar wella perfformiad yn y meysydd hyn fesul chwarter, ac mae'n cyfrannu'n fawr at eu barn gyffredinol hwy am brosesau llywodraethu'r Cyngor, i gael ei adrodd wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r themâu perthnasol wedi cael eu gosod allan o dan bob un o'r egwyddorion, i ddangos sut mae pob un yn eu cefnogi.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn dangos sut mae pethau'n dod ymlaen yn erbyn pob un o'r deg Thema Gwella, er mwyn dangos a rhoi sicrwydd o ba mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor wrth fynd ymlaen.

## RHAN 3: CYDYMFFURFIAETH GYDAG EGWYDDORION LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

### Egwyddor Un: Ymgysylltu gyda phobl leol a budd-ddeiliaid eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cadarn.

Mae'r Cyngor wedi cael nifer o gynlluniau i sicrhau ei fod yn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i sicrhau atebolrwydd cadarn. Enghreifftiau o'r fath drefniadau yw: penderfyniadau cynllunio (siarad yn gyhoeddus mewn Pwyllgorau); cymryd rhan mewn cydweithio/partneriaeth (presenoldeb mewn byrddau rhaglen, cydweithio Ynys Ynni (gyda'r cyhoedd, rhanddeiliaid sector gwirfoddol a chyhoeddus a preifat); a mwy o e-ddemocratiaeth i ganiatáu mwy o ymgynghori cyhoeddus a deisebu a chyhoeddi cofnodion a rhaglenni ar lein).

Cynllun Cymunedol Ynys Môn - Ein Hynys - Ein Dyfodol 2012-15 yw'r ddogfen strategol gorfforaethol allweddol, ac mae'n hyrwyddo gweledigaeth tymor hir ar gyfer gwella lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yr ardal. Fe gafodd y Cynllun ei gynhyrchu ar ôl ymgynghori gyda'r cyhoedd ar y blaenoriaethau sydd wedi cael eu hamlinellu yn y ddogfen, ac mae'n rhoi manylion sut gall unigolion gymryd rhan mewn datblygu'r Cynllun, ynghyd â manylion i gysylltu, a gwefan ar gyfer mynegi barn.

Bydd pob cyfarfod o'r Cyngor a'i Bwyllgorau'n digwydd yn gyhoeddus lle bynnag bo modd. Bydd yr holl bapurau ar gyfer cyfarfodydd agored yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw ar wefan y Cyngor.

**Sesiynau 'galw mewn'** – yn haf 2011, fe benderfynodd y Comisiynwyr, Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol ar y deilliannau strategol arfaethedig y dylai'r Cyngor weithio arnynt am y tair blynedd nesaf. Fe gafodd pedwar prif ddeilliant eu henwi, a threfnu pump o sesiynau galw mewn ar draws yr Ynys ym mis Hydref 2011 er mwyn ymgysylltu gyda'r cyhoedd i weld ba mor ddilys oedd y deilliannau eu hunain, a'r dulliau gorau i'w cyrraedd.

Fe gafodd y deilliannau strategol arfaethedig hefyd fynd i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Llais Ni, gan roi cyfle am adborth o farn pobl ifanc. Yn ogystal, fe gafodd y deilliannau strategol arfaethedig eu cyflwyno, fel gwybodaeth ac i gael adborth, i Gyfarfod Blynyddol y trydydd sector ym Môn ac i Fedrwn Môn a Chyngor Ar Bopeth. Fe ddigwyddodd ymgysylltu hefyd ar y deilliannau strategol arfaethedig hyn gyda staff Cyngor Sir Ynys Môn.

Fe aeth y broses ymgysylltu hon ymlaen hyd ddiwedd mis Hydref 2011, pan gafodd y canlyniadau eu defnyddio fel prif fater i yrru ymlaen y Cynllun Busnes Corfforaethol. Roedd y Cynllun Busnes Corfforaethol ei hunan yn agored ar gyfer ymgynghori o Ionawr hyd Chwefror 2012. Yn ogystal, roedd arolwg dinasyddion Môn yn rhedeg rhwng Ionawr a Mawrth 2012.

Mae'n arwydd o ba mor effeithiol oedd y broses ymgysylltu fod yr adborth a gafwyd yn cadarnhau'r pedwar deilliant strategol arfaethedig, a hefyd wedi ychwanegu pumed o ganlyniad uniongyrchol i'r ymgysylltu. Y pumed deilliant strategol yw 'Bydd pobl Ynys Môn yn falch o'u Cyngor.'

**Themâu Gwella Perthnasol y Comisiynwyr**

**Thema 6 – Datblygu blaenoriaethau strategol gyda mwy o fesuriadau seiliedig ar ganlyniadau**

- Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i ganfod blaenoriaethau wedi'u seilio ar ddeilliannau i siapio Cynllun Corfforaethol 2012/15;

  Deilliant 2011-12: wedi cael ei gyflawni gyda sesiynau galw mewn ac ymgorffori'r adborth yng Nghynllun Busnes Corfforaethol 2012-15.

- Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i ganfod blaenoriaethau wedi'u seilio ar ddeilliannau i siapio Strategaeth Gymunedol 2012/15; -

  Deilliant 2011 - 12: Mae'r Cynllun Strategol Integredig Sengl wedi dod i gymryd lle'r Strategaeth Gymunedol, yn dilyn cyfarwyddyd oddi wrth Lywodraeth Cymru. Gweler isod os gwelwch yn dda ar gyfer ymgysylltu ar y Cynllun Strategol Integredig Sengl.

- Paratoi Cynllun Strategol Integredig Sengl.

  Deilliant 2011-12: Mae'r Cynllun Strategol Integredig Sengl yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu gan bartneriaid cyn Ebrill 2013.

**Thema 9 - Ymgysylltu'n llawn gyda, ac adlewyrchu barn a blaenoriaethau dinasyddion Ynys Môn.**

- Datblygu a gweithredu'r Strategaeth Adnewyddu Democrataidd;

  Deilliant 2011-12: Roedd datblygu'r Strategaeth Adnewyddu Democrataidd yn mynd ymlaen yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae penderfyniad i ohirio etholiadau Môn a newidiadau arfaethedig gan y Comisiwn Ffiniau wedi effeithio ar dargedau tu mewn i'r Strategaeth Adnewyddu Democrataidd. Mae strategaeth yn ei lle sy'n

cynnwys cynllun gweithredu blwyddyn un, yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y bobl yn pleidleisio ac amrywiaeth ymysg ymgeiswyr ac aelodau etholedig.

- Datblygu a gweithredu'r Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned;

  Deilliant 2011-12: Fe gafodd y Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned ei chynhyrchu yn 2011-12 ac mae'n cynnwys strwythurau ymgysylltu wedi'u seilio ar ardaloedd (dalgylchoedd ysgolion), cynyddu presenoldeb a chael barn oddi wrth Sioeau Teithiol trwy Ynys Môn gyfan a chwblhau arolwg o ddinasyddion Môn rhwng Ionawr a Mawrth 2012.

- Datblygu a gweithredu'r Strategaeth Gyfathrebu;

  Deilliant 2011-12: Fe wnaeth y Cyngor fabwysiadu cynllun gweithredu blwyddyn un, sy'n golygu defnyddio gwahanol sianelau cyfathrebu i ymgysylltu gyda dinasyddion a'u hysbysu, a chynnydd yn y defnydd o wefan y Cyngor.

- Datblygu a chyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

  Deilliant 2011-12: Fe gafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei ddatblygu, ei gyhoeddi a'i weithredu yn 2011 – 12.

**Thema 10 – Datblygu partneriaethau effeithiol rhwng y Cyngor a'r sectorau cyhoeddus a phreifat ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.**

- Gweithredu'r Cynllun Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc;
- Deilliant 2011-12: Mae'r Cynllun Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn Gynllun tair blynedd ar gyfer 2011-14. Ym marn y Cyngor, mae wedi symud ymlaen gyda gweithredu'r Cynllun yn 2011-12 yn unol gyda'r dyddiad cwblhau o 2014; fodd bynnag, nid oes targedau na mesurau blynyddol tu mewn i'r Cynllun. Mae'n bosibl y bydd newid yn Ebrill 2013, ac yn lle'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc bresennol bydd trefniadau Partneriaeth newydd gyda Chyngor Gwynedd.
- Gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant o ganlyniad i adolygiad y CCSIW;

  Deilliant 2011-12: Mae Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant wedi cael ei ddatblygu i ateb y gwendidau a welwyd yn adroddiad y CCSIW, ac wedi cael ei ymgorffori yng Nghynllun Darparu Gwasanaeth y Gwasanaethau hynny am 2012-13. Mae targedau wedi cael eu gosod ar gyfer meysydd gwella penodol, ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen gyda gweithredu'r cynllun gwella.

- Gweithredu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles;

  Deilliant 2011-12: – Nid yw datblygiad y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles wedi cael ei symud ymlaen fel y bwriadwyd yn 2011-12. Mae materion wedi digwydd gydag adnoddau tu mewn i Wasanaethau Cymdeithasol, sydd wedi cyfyngu ar y symud ymlaen. Fe gafodd y risg hwn ei gydnabod, ac mae'r mater yn parhau i redeg.

- Cefnogi cael Bwrdd Gwasanaethau Lleol effeithiol/integredig.
- Deilliant 2011-12: - Mae adolygiad wedi digwydd o'r model Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ynghyd â phartneriaethau allweddol eraill. Y rhai'n gwneud yr adolygiad hwn oedd Pennaeth Polisi Cyngor Sir Ynys Môn a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Polisi yng Ngwynedd. Mae disgwyl mai canlyniad hyn fydd bod Byrddau Gwasanaeth Lleol Cyngor Sir Ynys Môn a Gwynedd yn cyfuno, gydag elfen o weithredu modwlar penodol yn y ddau awdurdod. Mae'r model yn parhau i gael ei adolygu, i sicrhau cael model symlach a mwy effeithiol o Fwrdd Gwasanaethau Lleol.

**Mannau lle gwelwyd bod gwendid**

**Cod Lleol Llywodraethu Corfforaethol** – Nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu cod lleol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, ac mae hynny'n anghyson gydag egwyddorion canllawiau CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government: A Framework'.

**Cynllun Integredig Sengl** – mae cymeradwyo'r Cynllun wedi cael ei ohirio tan Ebrill 2013 am fod angen aros i gytuno gyda Llywodraeth Cymru, ac aros i ganllawiau perthnasol gael eu cyhoeddi.

**Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles** – Nid yw datblygiad y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles wedi symud ymlaen fel y cynlluniwyd yn 2011-12, ac mae'n parhau yn fater sydd heb gael ei ateb.

## Egwyddor Dau: Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi'u diffinio'n glir.

Mae gan y Cyngor nifer o bolisïau a gweithdrefnau wedi'u dylunio i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau swyddogion ac Aelodau'n cael eu diffinio'n glir ac yn caniatáu iddynt weithio gyda'i gilydd tuag at bwrpas sy'n gyffredin iddynt. Mae'r gweithdrefnau hynny'n cynnwys Cyfansoddiad y Cyngor; Codau Ymddygiad; Cynllun Dirprwyo; Protocol i'r Berthynas Rhwng Aelodau/Swyddogion; Rheolau Trefniadau; Cylch Gorchwyl Pwyllgorau ayyb. Mae dogfennau eraill fel disgrifiadau swydd yn diffinio swyddogaethau a rolau gwahanol aelodau a gwahanol swyddogion. Mae gan y Cyngor hefyd Brotocolau Rheolaeth Wleidyddol yn eu lle, sy'n cynorthwyo i sefydlu a chynnal gwell perthnasau gwaith rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol unigol.

Mae'r Cyngor hefyd wedi dynodi Aelodau'n ddeilyddion portffolio ar gyfer gwasanaethau allweddol y Cyngor, gyda'u rolau a'u cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n eglur mewn disgrifiadau swydd a manylion o'r person. Bydd deilyddion portffolio'n rhoi arweiniad ar roi cyfarwyddyd gwleidyddol i swyddogion ac mewn ennill parch swyddogion a darparu cefnogaeth i swyddogion wrth weithredu prosiectau'n ymwneud gyda'u portffolio.

**Briffio cyn Cyfarfodydd o'r Cyngor** – Roedd cyfarfod briffio cyn pob un o gyfarfodydd y Cyngor yn 2011-12. Y nod oedd ceisio cael cytundeb ymysg arweinyddion er mwyn osgoi gwrthdaro diangen mewn cyfarfodydd. Rhan o'r trafodaethau yn y cyfarfodydd hyn oedd sut i ddyrannu Cadeiriau ac Is-gadeiriau Pwyllgorau, y Pwyllgor Safonau a Datblygiad Aelodau.

**Themâu Gwella Perthnasol y Comisiynwyr**

**Thema 4 – Safonau ymddygiad gan aelodau a swyddogion**

- Cydymffurfiaeth gyda'r Protocol Hunanreoli wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor Sir 4.3.10;

  Deilliant 2011-12: – Mae'r Protocol Hunanreoli wedi symud ymlaen fel y cynlluniwyd, gyda phob panel wedi'i sefydlu gan y Pwyllgor Safonau'n cael eu sefydlu o dan y protocol. O ganlyniad i hyn, does dim achosion wedi digwydd mewn unrhyw un o'r paneli yn 2011-12 o gyfeirio oherwydd ymddygiad Aelodau. Roedd un mater yn chwarter tri yn ymwneud gydag adroddiad oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- Adolygu a chytundeb ar y protocol Aelodau/Swyddogion.

  Deilliant 2011-12: Fe gafodd y Protocol Aelodau/Swyddogion ei gynhyrchu erbyn Rhagfyr 2012. Fe gyflwynwyd Protocol drafft newydd i'r Pwyllgor Safonau ym Mawrth 2012 ac wedyn gyrru hwnnw allan i ymgynghori gydag aelodau. Fe gafodd y Protocol wedi'i adolygu ei fabwysiadu ym Mai 2012.

**Thema 5 – Trefniadaeth, cydlyniad ac effeithiolrwydd Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor.**

- Adolygu rôl, pwrpas a swyddogaeth yr SLG/MT;

  Deilliant 2011-12: Mae'r Cyngor wedi adolygu ei Dîm Arweinyddiaeth Strategol (SLT). Mae strwythur newydd wedi cael ei osod yn ei le a phenodiadau wedi digwydd i'r rhan fwyaf o'r swyddi newydd oedd wedi'u creu. Mae'r penodiadau'n cynnwys: Prif Weithredwr; Dirprwy Brif Weithredwr; Cyfarwyddwr Cymuned; Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy a Chyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes. Hefyd, mae ddwy swydd newydd, Penaethiaid Swyddogaeth, un gyda'r enw Adnoddau a'r llall yn Gyfreithiol a Gweinyddiaeth. Nid yw'r ddwy swydd hyn yn aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol. Bydd adolygiad o lefel Penaethiaid Gwasanaeth yn dilyn pan fydd y Tîm Arweinyddiaeth Strategol wedi setlo i'w le.

  Y cyfeiriad gyda'r newidiadau hyn yw adolygu pwrpas a swyddogaeth y Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Tîm Rheoli, a ffactor allweddol yn hyn yw rhannu cyfrifoldebau strategol a gweithredol rhwng y ddau.

- Pennu Amcanion Gwella Llywodraethu Corfforaethol Mewnol ar gyfer 2012/13;

  Deilliant 2011-12: O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mae angen i Gynghorau osod amcanion gwella bob blwyddyn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ar gyfer 2012-13, mae'r Cyngor wedi gosod pedwar amcan gwella. Mae'r cyntaf yn ymwneud gyda gwella Gwasanaethau Plant, gyda'r nod o sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth a hyrwyddo eu lles, annibyniaeth a sefydlogrwydd. Yr ail yw adfywio ein cymunedau, gyda'r nod o atal digartrefedd ac ateb anghenion tai ac anghenion cysylltiedig pobl ddigartref. Y trydydd amcan gwella yw gwella llywodraethu corfforaethol, gyda'r nod o sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'n llawn ei addewid i hyrwyddo a diogelu buddiannau'r Ynys, ei dinasyddion a'i chymunedau. Mae naw o gamau gweithredu allweddol i gefnogi'r amcan gwella hwn wedi cael eu cytuno. Y pedwerydd amcan gwella yw cyflawni'r cytundeb deilliant, gyda'r nod o sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn alinio ei hunan gyda nodau Llywodraeth Cymru ac yn gweithio mewn partneriaeth tuag atynt.

- Bwriad i ddyrannu adnoddau i flaenoriaethau wrth osod cyllideb.

  Deilliant 2011-12: Mae cyllideb 2012-13 wedi cael ei halinio gyda blaenoriaethau'r Cynllun Busnes Corfforaethol. Fe gynhaliodd y Cyngor ddau weithdy wedi'u harwain gan Aelodau yn Ionawr 2012, i fynd trwy'r gwahanol gynigion oddi wrth swyddogion o ran sut orau i gael arbedion.

**Thema 7 – Cyflwyno proses gadarn ar gyfer rheoli perfformiad, prosiectau a risg.**

- Sefydlu, mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol i gynhyrchu a monitro gwaith y sefydliad i'r dyfodol;

  Deilliant 2011-12: Mae'r Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol wedi cael ei ddatblygu a'i weithredu. Mae'r Fframwaith yn defnyddio ffordd strwythuredig o weithredu, gyda'r Cynllun Busnes Corfforaethol yn gyrru ymlaen yn strategol ar gyfer gwaith arweiniol y Cyngor, a chefnogaeth trwy gyfrwng Cynlluniau Datblygu Gwasanaeth.

  Mae gan y Cynllun Busnes Corfforaethol dargedau a mesurau perthnasol i ddangos, bob blwyddyn, beth sy'n llwyddo neu'n methu. Hefyd, tu mewn i'r Fframwaith mae blaenoriaethau gwella ar gyfer 2012-13. Mae'r Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cynnwys tracio perfformiad yn erbyn targedau fesul chwarter, ac yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli prosiectau a rheoli risgiau fel celfi gweithredu allweddol.

- Drafftio a chytuno'r Adroddiad Gwella Blynyddol.

  Deilliant 2011-12: Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol wedi cael ei ddatblygu, a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ym mis Hydref 2011.

**Mannau lle gwelwyd bod gwendid**
Ni welwyd unrhyw rai.

## Egwyddor Tri: Datblygu capasiti a gallu Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i ddarparu hyfforddiant i Aelodau a swyddogion, fel sy'n addas i'w gwahanol rolau. Bydd trefniadau rheoli perfformiad a gwerthuso yn cynorthwyo i ganfod yr anghenion am hyfforddiant.

Fe wnaeth y Cyngor barhau i ddatblygu system werthuso sy'n cynnwys yr holl gyflogeion, yn cynnwys Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth. Fe fu'r Cyngor yn cydweithio gyda Chynghorau Conwy a Sir Ddinbych i gynhyrchu cynllun corfforaethol i werthuso medrusrwydd. Mae'r cynllun yr un fath ar gyfer pob swyddog, o'r Prif Weithredwr i lawr.

Mae'r Cyngor wedi dod â chynllun rheoli newid i mewn, gyda'r nod o ddechrau ar broses o newid diwylliant tu mewn i'r Cyngor o ran sut bydd rheolwyr yn rheoli pobl, cyllid a pherfformiad. Enw'r cynllun yw Ethos Môn, ac mae'n cynnwys bod rheolwyr yn mabwysiadu nifer o werthoedd a chredoau yn canolbwyntio ar y dinesydd a'r cwsmer.

**Rhaglen Datblygu Aelodau** - Fe gafodd Cynllun Datblygu Blynyddol ar gyfer Aelodau Etholedig (Tachwedd 2010 i Fawrth 2012) ei gynhyrchu a'i weithredu yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r Cynllun Datblygu'n ddogfen fyw, ac felly ni chafodd yr holl sesiynau sydd wedi'u rhestru eu darparu, ac mae rhai eraill wedi cael eu hychwanegu pan oedd newidiadau mewn blaenoriaethau ac amgylchiadau'n galw am hynny. Bydd sut mae pethau'n dod ymlaen gyda Datblygu Aelodau'n cael ei adrodd yn rheolaidd wrth y Pwyllgor Safonau. Bydd y Pwyllgor yn monitro ac arfarnu'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu. Roedd y Cynllun Datblygu Blynyddol i Aelodau Etholedig, Tachwedd 2010 hyd Fawrth 2012, yn cynnwys 27 o wahanol weithdai / digwyddiadau hyfforddi ar gyfer Aelodau. Roedd sesiynau hyfforddi ar y rhestr yn cynnwys sesiynau statudol (yn cynnwys Cynllunio; Trwyddedu; cod ymddygiad) a sesiynau anstatudol (yn cynnwys sgiliau Cadeiryddiaeth). Fe gafodd Rhaglen Ddatblygu ddrafft uchelgeisiol ar gyfer 2012-13 ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau ym Mawrth 2012.

Roedd Aelodau hefyd yn cael eu hannog i fynd i weithdai a chyfleoedd hyfforddi tu allan i'r Cyngor, ac yn Chwefror 2012 roedd cynrychiolaeth dda o aelodau a swyddogion y Cyngor yng ngweithdy Consortiwm Cludiant TAITH yn Llanelwy. Ar gyfer haf 2012, mae bwriad i gynnal gweithdai cydweithio ar y cyd gyda'r Awdurdod Iechyd Lleol.

**Gweithdai Aelodau / Swyddogion** – Yn 2011-12 roedd sesiynau ar y cyd, Aelodau / Swyddogion, ar osod cyllidebau a chefndir ariannol. Mae'r Comisiynwyr wedi trefnu i gael gweithdai ar y cyd Aelodau / Swyddogion ar gyfer 2012-13 ar ddatblygiad sefydliadol, i sicrhau bod Aelodau a swyddogion yn tynnu i'r un cyfeiriad.

**Gweithgor Datblygu Aelodau** – Nid yw'r Gweithgor wedi cyfarfod ers Ionawr 2012, ond byddai'n cyfarfod yn rheolaidd yn 2011-12. Mae'r Pencampwr Aelodau wedi ymddiswyddo'n ddiweddar, felly mae angen i'r Cyngor edrych ar benodi Pencampwr newydd yn ogystal â Chadeirydd newydd. Bydd y mater o adolygu cylch gorchwyl y Grŵp hefyd yn cael ei ystyried.

**Peilotio adolygiadau datblygiad personol** - mae'r rhain wedi dechrau ar gyfer Aelodau, i weld beth yw'r anghenion hyfforddi, a'r rhan fwyaf o Aelodau wedi cymryd rhan yn y broses yn barod. Bydd angen i'r rhai nad ydynt wedi cymryd rhan fod yn gwneud hynny. Mae bwriad i'r adolygiadau hyn ddigwydd yn awtomatig yn y dyfodol, ar gyfer Aelodau ar ôl eu hethol.

**Themâu Gwella Perthnasol y Comisiynwyr**

**Thema 1 – Y Berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol**

- Cydymffurfiaeth gyda'r Protocolau Rheolaeth Wleidyddol, fel y cytunodd ac y derbyniodd y Cyngor Llawn ar 8 Mawrth, 2011.

  Deilliant 2011-12: Y meini prawf llwyddiant i Brotocol y Cyngor i Berthnasau Aelodau / Swyddogion yw bod dim adroddiadau'n mynd i'r Comisiynwyr o dorri'r protocolau. Yn chwarteri 1 a 2, y statws Coch-Ambr-Gwyrdd (RAG) yn erbyn y targed oedd coch, gyda hyn yn gwella i ambr ar gyfer chwarteri 3 a 4. Roedd nifer o adroddiadau am dorri'r Protocolau Rheolaeth Wleidyddol yn ymwneud â dewis cadeiryddion pwyllgorau. Gan na chafwyd atebion i'r materion, roedd y methiant i gydymffurfio'n parhau yn ystod y cyfnod hwn, fel sydd i'w weld yn yr adrodd ar statws Coch-Ambr-Gwyrdd gyda'r manylion uchod. Mae newidiadau i'r Protocolau, a fabwysiadwyd ym Mai 2012, wedi goresgyn y materion a godwyd.

**Thema 2 – Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor.**

- Adolygu Protocol y Cyngor i'r Berthynas Rhwng Aelodau / Swyddogion, sydd ar hyn o bryd yn 5.3 yn y Cyfansoddiad, ar y cyd gyda'r protocol Gwybodaeth;
- Deilliant 2011-12: Y Comisiynwyr wedi cyflwyno newidiadau i brotocolau ym Mai 2012.
- Adolygiad chwarterol o gynlluniau hyfforddi Aelodau, a phresenoldeb aelodau ar gyrsiau hyfforddi.

  Deilliant 2011-12: Yng nghyfarfod Rhagfyr 2011 o'r Pwyllgor Safonau, fe gyflwynwyd dau adroddiad ar sut roedd pethau'n dod ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu i'r Aelodau a hefyd y peilot o Adolygiadau Datblygiad Personol. Fe aeth adroddiad pellach i Bwyllgor Mawrth 2012.

**Thema 4 – Safonau ymddygiad gan Aelodau a Swyddogion.**

- Swyddfa'r Swyddog Monitro wedi derbyn yr holl ddisgrifiadau swydd a manylebau personol.

  Deilliant 2011-12: Yn chwarter 4 2011-12 roedd tri Aelod nad oeddent wedi llofnodi eu disgrifiad swydd Aelod.

**Thema 8 – Gwella capasiti, ansawdd a rheolaeth o wasanaethau cefnogaeth gorfforaethol.**

- Cynhyrchu cynllun gweithredu i yrru ymlaen waith i wella'r swyddogaeth Cyllid, yn ôl blaenoriaethau.

  Deilliant 2011-12: - Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu ac mae'n cynnwys deg rhan ar gyfer gwella. Ar ddiwedd pedwerydd chwarter 2011-12 fe gafodd dwy ran ar gyfer gwella eu hasesu fel 'coch'. Roedd y rheiny'n ymwneud â gosod Rheoli Risg yn rhan tu mewn i'r broses o wneud penderfyniadau, a hefyd adolygu'r broses ar gyfer cau cyfrifon a gweithredu ateb cadarn a chynaliadwy. Fe gafodd adnoddau ychwanegol eu dyrannu ym mlwyddyn 2011/12, a'u gwneud yn barhaol ar gyfer cyllideb 2012/13, i gryfhau staffio tu mewn i Gyllid. Mae staff interim sy'n gweithio ar y broses o gau cyfrifon wedi bod yn hyfforddi ac arwain staff i allu gwneud y gwaith cau yn y blynyddoedd sydd i ddod, er mwyn gwneud y broses yn gynaliadwy. Mae gweithredu system reoli cyllid fodern wedi cael ei gytuno ar gyfer 2012/13.

- Blaenoriaethu argymhellion Adolygiad Cymheiriaid Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (ICT) a chynhyrchu cynllun gweithredu i yrru ymlaen y gwelliannau sydd wedi'u blaenoriaethu mewn ffordd 'smart'.

  Deilliant 2011-12: Fe gafodd cynllun gweithredu ei gynhyrchu a'i ymgorffori yn y Cynllun Darparu Gwasanaethau ICT am 2011-12. Mae'r Cynllun Darparu Gwasanaeth yn dangos y blaenoriaethau ar gyfer gwella, a'r camau mae angen eu cymryd. Mae Gwasanaethau ICT hefyd wedi adolygu lefelau staffio, gyda'r nod o ailstrwythuro'r Gwasanaeth.

- Gweithredu elfennau hanfodol o'r rhaglen waith strategol adnoddau dynol;

  Deilliant 2011-12: Gweithredu i gael ei hwyluso trwy Strategaeth Pobl y Cyngor a gwneud adolygiad rheolaeth o'r sefydliad; ailstrwythuro rheolaeth uwch; penodi Prif Weithredwr newydd a llwyddo i adolygu amodau a thelerau gwasanaeth y Cyngor.

- Datblygu a gweithredu proses Adolygiad Datblygiad Personol Gorfforaethol newydd.

  Deilliant 2011-12: Fe ddaeth y broses Adolygiad Datblygiad Personol Gorfforaethol i mewn yn 2011-12. O ganlyniad, fe gafodd 64% o Adolygiadau Datblygiad Personol staff eu gwneud yn 2011-12.

**Mannau lle gwelwyd bod gwendid**
**Cyflwyno Cyfrifon** - Doedd y Cyngor ddim wedi cyflwyno ei gyfrifon i gael eu harchwilio mewn pryd yn 2010/11, ac o ganlyniad doedd yr archwiliad ddim wedi cael ei gwblhau o fewn yr amserlen gywir. Mae hyn yn dilyn oedi gyda chwblhau archwiliad allanol yn 2009/10. Roedd hynny yn bennaf oherwydd materion gydag adnoddau yn y Gwasanaeth Cyllid, oedd yn destun adolygiad ac adroddiad yn 2011-12. Mater arall o ran yr oedi gyda pharatoi cyfrifon y Cyngor am 2010/11 oedd bod y gofynion IFRS wedi dod i mewn. Fe wnaeth pethau wella'n sylweddol yn 2010/11 o ran adolygu a dosbarthu adnoddau, ac o ganlyniad gyda'u harfarnu, ac yn 2011/12 fe lwyddwyd i orffen gweithredu system rheoli asedau.

**Diogelu Plant, yr Arolygiaeth Gofal** – Yn Chwefror 2011 fe wnaeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru archwiliad o'r trefniadau ar gyfer asesu a rheoli gofal plant mewn angen ym Môn, oedd yn dangos bod methiannau difrifol o ran diogelu plant, ac felly bod angen gwaith arolygu pellach. Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Cynllun Gwella Gwasanaeth, sydd wedi cael ei fonitro a'i gynorthwyo gan y Bwrdd Gwella Gwasanaeth. Fe fydd y Bwrdd yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu a Bwrdd Gwella'r Comisiynwyr.

Fe wnaeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wneud Arolygiad Diogelu Plant o Gyngor Sir Ynys Môn ym mis Hydref 2011. Fe gyhoeddwyd yr adroddiad ar 2 Mawrth 2012. Roedd yr arolygiad hwn yn edrych ar ansawdd y prosesau Diogelu a gallu'r Cyngor i barhau gyda'r gwasanaeth ac i'w wella. Fe wnaeth yr Arolygiaeth dynnu sylw at nifer o fannau lle'r oedd angen gwella. Mae'r Cynllun Gwella Gwasanaeth newydd yn ymgorffori gwelliannau roedd yr Arolygiaeth yn galw amdanynt am y flwyddyn i ddod, ac yn canolbwyntio ar weithio'n strategol i fynd â'r gwasanaeth o sefyllfa o adfer i un o wella cynaliadwy.

**Parhad Busnes** - Does gan y Cyngor ddim Cynllun Parhad Busnes na chynllun i Adfer ar ôl Trychineb ICT yn eu lle ac wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol. Fodd bynnag, mae trefniadau yn eu lle i ddelio gyda sefyllfaoedd trychineb pan fyddant yn codi, ond nid yw'r rhain wedi cael eu hysgrifennu i lawr yn ffurfiol a does dim sicrwydd y byddent yn effeithiol pe byddai trychineb fawr yn digwydd. Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei Barhad Busnes, ac ym Mawrth 2012 fe gynhaliodd Weithdy Parhad Busnes gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth yn bresennol, yn cynnwys sefyllfa o drychineb ffug a sut byddai modd defnyddio'r Cynllun Parhad Busnes drafft i adfer y sefyllfa. Fe gafodd nifer o wersi pwysig eu dysgu, a datblygu cynllun gweithredu.

**Rheoli Risg** – Mae'r Cyngor wedi symud ymlaen gyda datblygu ei Gofrestr Risg Gorfforaethol ac mae drafftiau dechreuol wedi cael eu cwblhau. Mae gwaith yn mynd ymlaen i weithredu'r Fframwaith Rheoli Risg, yn cynnwys adrodd yn rheolaidd ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol wrth y Tîm Arweinyddiaeth Strategol, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Mae hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer aelodau o'r Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini, i'w cael yn gyfarwydd gyda'r Fframwaith Rheoli Risg a'r llinellau adrodd sydd i gael eu mabwysiadu gan y Cyngor. Fe gafodd y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei chyflwyno'n ffurfiol mewn ffurf drafft i'r Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini yn 2011-12. Mae Cyfarwyddwyr ar hyn o bryd yn cofnodi camau lleddfu perthnasol yn erbyn risgiau yn y Gofrestr.

Mae Cofrestrau Risg lefel gwasanaeth yn eu lle, ac yn cael eu hadrodd i'r cyfarfodydd perfformiad Chwarterol. Fe ddaeth y broses hon yn rhan o'r broses Chwarterol yn ystod 2011-12.

**Cydymffurfiaeth gyda Pholisi a Gweithdrefn** – Roedd nifer o adroddiadau Archwilio Mewnol yn 2011-12 yn ymwneud gyda chydymffurfiaeth gyda pholisïau corfforaethol allweddol. Roedd yr adolygiadau o'r polisïau corfforaethol hyn wedi gweld nad oedd wedi cael ei ddiffinio'n eglur lle roedd y cyfrifoldeb am weithredu, monitro a darparu sicrwydd corfforaethol o gydymffurfio gyda pholisïau corfforaethol allweddol.

Hefyd yn ystod adolygu, fe welwyd mai cyfyngedig oedd y defnydd o system y Cyngor ar gyfer cymeradwyo polisïau yn electronig, sy'n cofnodi bod defnyddwyr wedi darllen, deall a chytuno i gadw at y polisïau. Heb gael y fath gofnod o gymeradwyo, mae'n anoddach dangos bod y polisïau wedi cael eu dosbarthu'n ddigonol a chael eu derbyn gan y staff perthnasol.

Mae bodolaeth polisi a gweithdrefn a chadw at y rheiny'n gydran allweddol o fframwaith Llywodraethu'r Cyngor. Os bydd methiant i sicrhau'n ddigonol bod staff yn ymwybodol o'r fath bolisïau a gweithdrefnau, mae mwy o risg o beidio cydymffurfio. Fe roddwyd adroddiad i'r Prif Weithredwr yn 2011-12 yn tynnu sylw at y materion hyn, a bydd dilyn ymlaen yn 2012-13 ar ba mor dda mae'r argymhelliad yn cael ei weithredu.

**Prosesau Arfarnu Swyddi / Cyflog Cyfartal** – Fe fu symud ymlaen tuag at weithredu arfarnu swyddi yn 2011-12, ond ar ddiwedd y cyfnod roedd y gwaith yn parhau i fynd ymlaen. Mae'r archwilydd allanol wedi adrodd ei bod yn bosibl fod amcangyfrifon rheolwyr yn y maes yma yn cael eu cam ddatgan yn sylweddol, o gofio eu bod o ran natur yn fater o farn.

**Diogelwch Data** – Fe wnaeth y Cyngor adrodd wrth y Comisiynwyr Gwybodaeth am ddau ddigwyddiad o dorri'r rheolau data ym Mawrth 2012. Roedd y ddau ddigwyddiad yma yng Ngwasanaethau Plant. O ganlyniad i'r rhain, fe gafodd cynllun rheoli ei gynhyrchu ar gyfer adegau o dorri rheolau data, fel fframwaith i ymatebion y Cyngor a chamau i'w cymryd wedyn i atal hynny rhag digwydd. Roedd adroddiad pellach ym Mai 2012 am dorri'r rheolau data gyda chyhoeddi papurau busnes ar gyfer y Pwyllgor Safonau.

Fe gafodd y Cyngor adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth oddi wrth ei archwilwyr allanol, Price Waterhouse Coopers, ym Mai 2011, oedd yn cynnwys naw o argymhellion i gryfhau rheolaeth yn y maes hwn. Fe welodd adroddiad dilyn ymlaen ym Mai 2012 gan Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor nad oedd yr un o'r argymhellion hyn wedi cael ei weithredu'n llawn. Roedd yr argymhellion yn ymwneud gyda meysydd allweddol fel; penodi Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth; mapio ei asedau a llif gwybodaeth; cydgysylltu cyfrifoldebau'r Cyngor o ran Llywodraethu Gwybodaeth; adolygu polisïau Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor, datblygu Cynllun Sicrwydd Cynhwysfawr; agwedd fwy cynhwysfawr tuag at hyfforddi staff ac ymwybyddiaeth ynghylch diogelwch gwybodaeth; rhoi sylw i'r anghysonderau presennol yn y ffordd mae gwahanol wasanaethau'n cadw, storio a chael gwared â gwybodaeth wedi'i seilio ar bapur; datblygu Cofrestr Trosglwyddo Data ac ymgymryd ag adolygiad Archwilio Mewnol o'r broses i ddechreuwyr a rhai sy'n gadael.

DRAFT

**Gwerthuso Staff** - Ni wnaeth gwerthuso ddigwydd yn gyson yn ystod 2011-12 ar gyfer yr holl staff, er bod 64% o werthuso staff wedi digwydd, yn dilyn dyfodiad y broses gorfforaethol i Adolygu Datblygiad Personol.

**Disgrifiad swydd Aelodau** – mae tri Aelod sydd hyd yma heb arwyddo'r disgrifiad swydd i Aelodau.

## Egwyddor Pedwar: Cymryd penderfyniadau tryloyw sydd ar sail tystiolaeth ac yn cael eu sgriwtineiddio'n effeithiol a rheoli risg.

Mae'r Cyfansoddiad a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn sefydlu cyfrifoldebau am wneud penderfyniadau. Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan gymryd i ystyriaeth y cyngor proffesiynol priodol. Bydd penderfyniadau'r pwyllgor gwaith yn cael eu cyhoeddi ac yn destun sgriwtini. Mae mesurau rheoli perfformiad yn eu lle i gofnodi perfformiad y Cabinet yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol lleol a chenedlaethol.

Bydd cyfarfodydd cyn Pwyllgor yn digwydd cyn pob Pwyllgor Sgriwtini, Archwilio a Chynllunio, a hefyd cyn cyfarfodydd y Bwrdd Comisiynwyr. Bydd y Cadeirydd ac Is-gadeirydd a'r uwch swyddogion perthnasol yn mynd i'r cyfarfodydd hyn. Nod y cyfarfodydd yw cael y Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn gyfarwydd gyda'r eitemau a'r adroddiadau ar y rhaglen, gweld pa rannau sy'n arbennig o bwysig neu pa faterion sy'n debygol o fod yn ddadleuol, a darparu unrhyw ddogfennau cefnogi neu wybodaeth ychwanegol y bydd y Cadeirydd neu Is-gadeirydd eu hangen. Bydd y cyfarfodydd hefyd yn ceisio esmwytho'r llif gwaith i bwyllgorau a sicrhau bod modd rheoli'r cyfarfodydd yn effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio trwy gael gweithdai ar gyfer Aelodau Pwyllgor ac uwch swyddogion. Roedd y gweithdai hyn wedi'u bwriadu i wneud hunan asesiad o ba mor effeithiol yw Pwyllgor Archwilio'r Cyngor, trwy gymharu ei berfformiad gyda beth sydd i'w weld mewn arfer gorau yn y Pecyn Gwaith ar gyfer Pwyllgorau Archwilio Awdurdod Lleol, wedi'i gynhyrchu gan Fforwm Llywodraethu Gwell CIPFA. Mae canlyniadau'r hunan asesiadau ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf wedi dangos bod effeithiolrwydd yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Fe fydd y Cyngor yn defnyddio'r system reoli perfformiad 'Ffynnon' fel ei brif erfyn rheoli perfformiad a'r sail i'r cyfarfodydd Rheoli Perfformiad chwarterol. Fe fydd y cyfarfodydd hynny'n golygu bod angen sgriwtineiddio a monitro targedau Cynlluniau Busnes Gwasanaethau.

Fe fydd yr holl adroddiadau, cofnodion a chofrestrau penderfyniad yn cael eu cyhoeddi'n brydlon, a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac ar gael i'w harchwilio. Bydd pob cyfarfod yn digwydd yn gyhoeddus, yn amodol ar ystyried gwybodaeth eithriedig fel sy'n cael ei diffinio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Trefniadau Sgriwtini** - Fe gafodd y Strwythur Pwyllgorau Sgriwtini presennol ei gytuno gan y Cyngor ym Mai 2010, ac mae ynddo bump o Bwyllgorau Sgriwtini:

- Corfforaethol;
- Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo;
- Addysg a Hamdden; a hefyd
- Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol.

Nodau'r Pwyllgorau Sgriwtini yw:

- Hyrwyddo gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw a dal y rheini sy'n gwneud y penderfyniadau yn atebol mewn modd adeiladol;
- Cefnogi'r Cyngor i wireddu ei weledigaeth ar gyfer y sir a'i nodau a'i flaenoriaethau strategol; a hefyd
- Hyrwyddo gwelliant parhaus, arferion gorau ac arloesi yn y gwasanaethau, y swyddogaethau a'r polisïau mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt neu mae ganddo ddylanwad drostynt.

Fe fydd pob Pwyllgor Sgriwtini'n cynhyrchu Rhaglen Waith. Mae modd i unrhyw aelod neu ddinesydd ofyn am i eitemau gael eu cynnwys mewn Rhaglen Waith Pwyllgor Sgriwtini, ond gan fod cyfyngiad ar adnoddau'r Pwyllgorau, bydd angen defnyddio prawf pwysigrwydd i flaenoriaethu pa eitemau sydd i gael eu cynnwys.

Fe fydd Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini'n cael ei gwblhau bob blwyddyn, a'r un diwethaf yw ar gyfer y flwyddyn ddinesig Mai 2011-12, a gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 10 Mai 2012. Fe fydd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys y perfformiad sydd wedi cael ei gyflawni yn erbyn targedau a dangosyddion sydd wedi'u gosod ymlaen llaw.

**Themâu Gwella Perthnasol y Comisiynwyr**

**Thema 3 – Sgriwtini a'i allu i herio a dylanwadu'n effeithiol ar benderfyniadau a pholisïau.**

- Gostyngiad yn nifer y Galw i mewn, am fod mwy o weithgaredd cyn sgriwtini;

  Deilliant 2011-12: Bydd eitemau ar y Rhaglen Waith y gallent fod yn ddadleuol yn mynd i gyn sgriwtini ac wedyn ar y penderfynydd. Rhwng Mai 2012 ac Ebrill 2011 roedd tri chais am 'Alw i mewn' a rhwng Mai 2011 ac Ebrill 2012 roedd un cais 'Galw i mewn'. Fodd bynnag, ym Mai 2012 roedd dau gais 'Galw i mewn', ac os bydd y duedd hon yn parhau mae'n golygu bod cynnydd yn gyffredinol mewn ceisiadau 'Galw i mewn'.

- Adlewyrchu llais y Cyhoedd o ran pryderon am Sgriwtini trwy fonitro nifer y dinasyddion neu gynrychiolwyr grwpiau cymunedol sy'n cymryd rhan yn y broses Sgriwtini e.e. mynd i gyfarfodydd / ymateb i holiaduron.

  Deilliant 2011-12: Mae monitro a chofnodi nifer y dinasyddion / grwpiau cymunedol sy'n cymryd rhan mewn Sgriwtini bob blwyddyn yn cael ei gynnwys fel dangosydd perfformiad lleol. Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2011-2012 yn dangos cyfanswm o 319 o'r fath gysylltiadau ymwneud, sydd yn bennaf yn ymatebion i holiaduron, presenoldeb mewn cyfarfodydd Pwyllgor, a phresenoldeb mewn sesiynau 'galw mewn' yn ystod y cyfnod.

- Sicrhau bod Sgriwtini'n cyflawni ei swyddogaeth o fod yn gyfaill **beirniadol** o'r Pwyllgor Gwaith.

  Deilliant 2011-12: Nid yw Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn cael bod yn Aelodau o Bwyllgor Sgriwtini, ac felly mae Pwyllgorau'n annibynnol oddi wrth y Pwyllgor Gwaith. Mae wedi cael ei ddatgan yn nod allweddol gan Sgriwtini i 'hyrwyddo gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw a dal y rheini sy'n gwneud y penderfyniadau yn atebol mewn modd adeiladol.' Trwy wneud hynny, mae Pwyllgorau Sgriwtini'n cyflawni eu swyddogaeth o fod yn 'gyfaill beirniadol' i'r Pwyllgor Gwaith.

**Thema 7 – Cyflwyno proses gadarn ar gyfer rheoli perfformiad, prosiectau a risg.**

- Cofrestr Risg Gorfforaethol i fod yn ei lle ac yn weithredol erbyn mis Hydref 2011.

Deilliant 2011-12: Fe gafodd Cofrestr Risg Gorfforaethol ddechreuol ei chynhyrchu yn 2011-12 a'i chyflwyno ar ffurf drafft i'r Pwyllgorau Sgriwtini ac Archwilio. Fe gafodd Cofrestrau Risg Gwasanaethau eu cynhyrchu yn y cyfnod hwn, a'u hadrodd wrth gyfarfodydd perfformiad Chwarterol. Bydd Cofrestrau Risg Gwasanaethau yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Sgriwtini 2012-13.

**Mannau lle gwelwyd bod gwendid**
Nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu a gweithredu fframwaith Rheoli Risg yn ffurfiol, er bod fframwaith drafft wedi cael ei ddatblygu. Mae adolygiad o drefniadau rheoli risg tu mewn i wasanaethau wedi gweld rhai arferion da, ac mae cofrestrau risg gweithredol wedi cael eu cynhyrchu a'u cynnal yn y rhan fwyaf o wasanaethau. Fe wnaeth y Cyngor gynhyrchu Cofrestr Risg ddechreuol yn 2011-12 ac fe fydd adrodd ar Gofrestrau Risg Gwasanaethau yn digwydd yn y cyfarfodydd Chwarterol. Fodd bynnag, nid yw'r Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei hymgorffori'n llawn ym mhrosesau'r Cyngor a chael ei hadrodd a'i sgriwtineiddio'n rheolaidd mewn Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini.

Mae cael proses gadarn ar gyfer rheoli perfformiad, prosiectau a risg yn un o ddeg Thema Gwella Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr ar gyfer y Cyngor.

Fel yn 2010-11, mae gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn wedi gweld bod achosion o beidio cydymffurfio gyda nifer o bolisïau corfforaethol allweddol. Fe wnaeth Archwilio Mewnol adrodd ar hyn wrth y Prif Weithredwr a Phwyllgorau Archwilio yn 2011-12.

## Egwyddor Pump: Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad.

Mae gan y Cyngor Godau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a swyddogion. Mae Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd yn ei le, ac mae'r Cyngor wedi dynodi Swyddog Monitro, a Phwyllgor Safonau sydd â'i rolau'n cynnwys sicrhau cadw at safonau uchel o ymddygiad.

Mae arweinyddion gwleidyddol y Cyngor wedi addo cadw at safonau uchel o ymddygiad er mwyn symud yr Awdurdod yn ei flaen, a phob un wedi cytuno i gadw at brotocol ar gyfer hunanreoli. Maen nhw wedi cytuno y dylai disgyblaeth grŵp ddod yn gonglfaen ar gyfer hunanreoli; osgoi gwrthdaro personol yn y Cyngor Llawn ac yn y cyfryngau; gwneud ymdrechion rhesymol i gael ateb i anghydfod trwy brosesau mewnol sydd wedi cael eu cytuno, a chymryd cyfrifoldeb am weithredoedd aelodau eu grŵp.

Aelodaeth y Pwyllgor Safonau yw tri Chynghorydd Sir, un Cynghorydd Tref / Cymuned, a phump o bobl annibynnol (nad ydynt yn Gynghorwyr nac wedi'u cyflogi gan y Cyngor). Mae'r Cyngor wedi datblygu Rhaglen Waith Pwyllgor Safonau, sy'n gosod trefn eglur o waith, gydag amserlen ac adnoddau.

Mae gan y Cyngor brotocol Swyddogion / Aelodau yn ei le, i osod safonau o'r ymddygiad mae disgwyl amdano oddi wrth Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn eu perthnasau gyda'i gilydd ac i gynnig cyfarwyddyd ar rai o'r materion sy'n codi fwyaf aml. Mae'n cael ei gydnabod bod ansawdd ac effeithiolrwydd y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion y Cyngor wrth galon llywodraethu lleol da.

**Themâu Gwella Perthnasol y Comisiynwyr**

**Thema 1 – Y Berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol**

- Cydymffurfiaeth gyda'r Protocolau Rheolaeth Wleidyddol fel sydd wedi'i gytuno a'i dderbyn gan y Cyngor Llawn ar 8 Mawrth, 2011.

Deilliant 2011-12: - Roedd rhai materion wedi arwain at beidio cydymffurfio gyda'r protocolau yn 2011-12, ond nawr mae newidiadau i'r protocolau, a fabwysiadwyd ym Mai 2012, wedi goresgyn y materion hynny.

**Thema 2 – Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor.**

- Cynnal gwrandawiad rhagarweiniol o fewn 6 wythnos ar ôl i fater gael ei gyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r Is-bwyllgor Indemniadau.

  Deilliant 2011-12: Roedd un enghraifft o gyfeirio oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2011-12. Doedd dim modd cynnal gwrandawiad rhagarweiniol o fewn chwe wythnos ar yr achlysur yma, am nad oedd rhai o'r ffigyrau allweddol oedd yn rhan o'r mater ddim ar gael.

- Cynnal gwrandawiadau am geisiadau am ganiatâd arbennig sy'n dod oddi wrth Gynghorwyr Sir yn unol ag Offeryn Statudol 2001;

  Deilliant 2011-12: Doedd dim ceisiadau am ganiatâd arbennig yn 2011-12.

- Goruchwylio'r adolygiadau blynyddol o'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau Aelodau, a rhoi cyngor a chyfarwyddyd yn dilyn hynny, os yn briodol;

  Deilliant 2011-12: Fe ddigwyddodd adolygiad blynyddol o'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau Aelodau, a rhoi cyngor ar faterion a godwyd. Mae adolygiad pellach wedi cael ei gynnwys yn y rhaglen waith i'r dyfodol ar gyfer 2012-13.

- Goruchwylio'r Gofrestr o Roddion a Lletygarwch trwy wneud adolygiadau blynyddol ac wedyn rhoi cyngor a chyfarwyddyd, os yn briodol.

  Deilliant 2011-12: Fe ddigwyddodd adolygiad blynyddol o'r Gofrestr o Roddion a Lletygarwch, a rhoi cyngor am faterion a godwyd. Mae adolygiad pellach wedi cael ei gynnwys yn y rhaglen waith i'r dyfodol ar gyfer 2012-13.

## Egwyddor Chwech: Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar ddeilliannau i'r gymuned a chreu gweledigaeth i'r ardal leol.

Mae'r Cynllun Integredig Sengl ar hyn o bryd yn y broses o gael ei ddatblygu i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu gan bartneriaid cyn Ebrill 2013. Mae'r Cynllun yn gosod gweledigaeth ar gyfer yr Ynys ac amcanion tymor hir i'r ardal. Mae'r Cynllun Integredig Sengl a dogfennau allweddol eraill yn rhoi cefndir strategol i lawer o raglenni gwaith y Cyngor.

Roedd Cynllun Gwella Cyngor Sir Ynys Môn (Cynllun Busnes Corfforaethol) 2011-12 yn gosod allan y blaenoriaethau am y flwyddyn, ac roedd wedi'i seilio ar bump o flaenoriaethau corfforaethol oedd wedi cael eu datblygu a'u mabwysiadu ar ôl ymgynghori eang. Mae'r blaenoriaethau corfforaethol yn lasbrint ar gyfer datblygiadau a gwelliannau, rhai yn y dyfodol a rhai sy'n mynd ymlaen nawr. Mae'r Cynllun Gwella'n gosod allan y nod strategol mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu, sef: 'hyrwyddo a gwarchod buddiannau'r ynys – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.'

Mae'r Cynllun Gwella hefyd yn cynnwys y pum blaenoriaeth strategol sydd wedi cael eu cytuno i gefnogi'r nod hwn. Mae'r blaenoriaethau strategol yn feysydd thematig eang ac yn darparu ffordd gytbwys o weithredu i adlewyrchu cyfrifoldebau statudol y Cyngor, canolbwyntio ar well trefniadau llywodraethu corfforaethol, effeithlonrwydd gwasanaethau a deilliannau cymunedol.

Blaenoriaethau strategol y Cyngor yw:

BS1 – Gwella enw'r Cyngor a'r Ynys;

BS2 – Diogelu a datblygu economi'r Ynys;

BS3 – Adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy;

BS4 – Hyrwyddo cymunedau iach, diogel a theg; a hefyd

BS5 – Gwasanaethau fforddiadwy ac effeithiol

Mae'r Cynllun Gwella'n dangos sut mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar gynllunio i wella yn unol gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae rôl arweiniad cymunedol y Cyngor wedi'i gynnwys yng ngwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, sy'n gorff aml asiantaethol gyda chynrychiolwyr o Gyngor Sir Ynys Môn, yr Heddlu, Iechyd a'r sectorau Gwirfoddol, Tân, Addysg Bellach ac Addysg Uwch, ac Unllais Cymru'n cynrychioli'r gymuned leol a chynghorau cymuned a thref. Pwrpas y Bwrdd yw siapio blaenoriaethau i'r dyfodol mewn ymateb i'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Ynys dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae'r Cyngor yn darparu arweiniad ar y cynllun Ynys Ynni, un gyda'r potensial i ddod â £biliwn i Ynys Môn a Gogledd-orllewin Cymru dros y 15 mlynedd nesaf trwy amrediad o brosiectau'n ymwneud gydag ynni. Mae'r rheiny'n cynnwys Wylfa B gydag £8 Biliwn, Fferm Wynt Centrica gyda swm tebyg, a chynlluniau eraill (e.e. cynlluniau i gael ynni o'r tonnau).

**Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** - Fe gafodd adroddiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn dod ymlaen o'i gymharu gydag Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ei gyflwyno i'r Bwrdd Cynaladwyedd ym Mai 2012. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at beth oedd wedi cael ei gyflawni yn erbyn yr argymhellion, ac yn rhoi camau gweithredu a llinellau amser i'r dyfodol. Roedd yr adroddiad yn dangos beth oedd wedi cael ei gyflawni yn erbyn yr un argymhelliad a phedwar cynnig ar gyfer gwella oedd yn adroddiad gwreiddiol y Swyddfa Archwilio.

**Cytundeb Compact** – Cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a 22 Awdurdod Lleol Cymru i gyflawni 47 o themâu penodol o ran y rhaglen o gydweithredu a chydweithio.

Mae'r Cyngor yn bwriadu cynhyrchu Cynllun Busnes Corfforaethol blynyddol sy'n dangos rhaglen waith lefel uchel y Cyngor am y flwyddyn nesaf ac yn rhoi manylion o nifer o amcanion gwella sydd wedi cael eu gosod. Mae'r rhain yn adeiladu ar y blaenoriaethau oedd wedi'u hamlinellu yng nghynllun y flwyddyn cynt, gan barhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd da i ddinasyddion. Mae angen i Wasanaethau unigol gynhyrchu eu Cynllun Busnes Gwasanaeth wedi'i gysylltu gydag amcanion corfforaethol y Cynllun Busnes Corfforaethol.

Mae'r Cyngor yn rhoi gwerth mawr ar bwysigrwydd dinasyddion a chymunedau i gefnogi blaenoriaethau allweddol, a bydd yn ymgynghori gydag amrediad eang o randdeiliaid i sicrhau bod y Cyngor yn canolbwyntio ar gyflawni'r deilliannau iawn.

**Themâu Gwella Perthnasol y Comisiynwyr**

**Thema 6 – Datblygu blaenoriaethau strategol gyda mwy o fesuriadau seiliedig ar ganlyniadau**

- Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i bennu blaenoriaethau wedi'u selio ar ddeilliannau i siapio Cynllun Corfforaethol 2012/15 a Strategaeth Gymunedol 2012-15.

  Deilliant 2011-12: Erbyn hyn, mae'r Strategaeth Gymunedol wedi cael ei disodli gan y Cynllun Integredig Strategol Sengl, yn dilyn cyfarwyddyd oddi wrth Lywodraeth Cymru.

**Thema 10 – Datblygu partneriaethau effeithiol rhwng y Cyngor a'r sectorau cyhoeddus a phreifat ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.**

- Cynllun Busnes Corfforaethol 2012/15 wedi'i seilio ar ddeilliannau, gyda dangosyddion a mesurau perfformiad wedi'u dangos yn eglur.
- Deilliant 2011-12: Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Cynllun Busnes Corfforaethol 2012/15 wedi'i seilio ar ddeilliannau, gyda dangosyddion a mesurau perfformiad wedi'u dangos yn eglur, trwy gyfrwng y Fframwaith Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol newydd. Fe gafodd gwelliannau eu pennu ar gyfer eu hystyried wrth gynhyrchu Cynllun Busnes Corfforaethol 2013/16, er mwyn gwella ymhellach y dangosyddion a'r mesurau.

**Mannau lle gwelwyd bod gwendid**
Ni welwyd unrhyw rai.

**RHAN 4: ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD A THREFNIADAU CRAFFU**
Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cynnal adolygiad blynyddol o ba mor effeithiol yw ei fframwaith llywodraethu yn ystod 2011-12, yn cynnwys y system o reolaeth fewnol.

Y Pwyllgor Archwilio fydd yn cael y gwaith o wneud yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor, trwy ei fod yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Fe fydd y wybodaeth ar gyfer yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn dod oddi wrth waith ac ymgysylltiad Cyfarwyddwyr ac aelodau eraill o'r Tîm Arweiniad Strategol, Penaethiaid Gwasanaeth ac adroddiad blynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio, ynghyd â sylwadau a barn yr Archwilydd Allanol ac asiantaethau sicrwydd trydydd parti.

Rôl Pwyllgor Sgriwtini'r Cyngor yw dal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif fel 'cyfaill beirniadol' a monitro a chynorthwyo gyda gwella a datblygu polisïau a gwasanaethau'r Cyngor. Mae gan y Cyngor bump o Bwyllgorau Craffu, sy'n cynghori ar lunio polisi ac yn dal y Comisiynwyr i gyfrif o ran materion penodol. Mae modd hefyd iddynt adolygu meysydd o weithgaredd y Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Comisiynwyr, neu faterion o bryder lleol ehangach. Y pum Pwyllgor Craffu yw:

- Corfforaethol;
- Amgylcheddol a Gwasanaethau Technegol;
- Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo; a hefyd
- Addysg a Hamdden.

Mae Rhaglen Waith i'r dyfodol wedi cael ei chynhyrchu, yn cynnwys pob un o'r pum Pwyllgor, yn rhoi manylion pa bryd bydd cyfarfodydd yn digwydd a'r materion i gael eu cynnwys ym mhob cyfarfod.

Mae Pwyllgor Safonau'r Cyngor wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i adolygu ac ystyried materion yn ymwneud gydag ymddygiad aelodau, ac mae'n gyfrifol am hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn.

Fe fydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu yn unol gyda chod ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. Fe fydd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio'n paratoi adroddiad blynyddol i grynhoi canlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn ac ar y system gyffredinol o reolaeth fewnol tu mewn i'r Cyngor.

Fe wnaeth Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio adrodd am 2011-12 bod tair rhan wedi cael eu gweld lle'r oedd gwendidau sylweddol mewn rheolaeth, fyddent yn atal y Cyngor rhag gallu dibynnu'n rhesymol ar y systemau o reolaeth fewnol o ran y systemau gafodd eu hadolygu yn

DRAFT

ystod y flwyddyn. Y rhannau hynny oedd Rheoli Risg, Parhad Busnes a Llywodraethu, ac mae pob un o'r rhain wedi cael sylw yn gynharach yn y Datganiad hwn.

Fe ddaeth Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio i'r casgliad nad oedd yr archwiliadau a ddigwyddodd ac a gwblhawyd yn 2011-12 wedi canfod unrhyw rannau'n achosi pryder sylweddol neu'n hanfodol i fusnes ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd, heblaw am y tri wedi'u henwi uchod.

## RHAN 5: ARDYSTIO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin gyda'r gwendidau a enwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro gweithrediad gwelliannau fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| -------------------------------------- | -------------------------------------- |
| **Arweinydd y Cyngor** | **Prif Weithredwr** |
| **Dyddiad:** | **Dyddiad:** |

DRAFT